# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A GWEITHDREFNAU DYDD MERCHER, 8 MAWRTH 2000

**Dechreuodd y sesiwn am 2pm**

**Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy-Lywydd.**

**Tynnodd sylw’r Aelodau at y baneri a oedd yn addurno’r Siambr i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.**

**2.01pm**

**Cwestiynau i Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg 16 oed**
Gofynnwyd y **4** cwestiwn cyntaf

**2.20pm**

**Cwestiynau i Christine Gwyther, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
Gofynnwyd y **5** cwestiwn cyntaf (**Tynnwyd Cwestiwn 1 yn ôl)**

**2.40pm**

**Cymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2000/2001) (Cymru) 2000**
Cynnig bod y Cynulliad,

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy’n ymwneud â’r Gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2000/2001) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Chwefror 2000

(b) yn ystyried egwyddor y Gorchymyn drafft

(c) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2000

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 37

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 37

**Cymeradwywyd y cynnig**

**2.45pm**

**Dadl i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod**
Mae’r Cynulliad hwn yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ac yn croesawu’r rôl y mae menywod yng Nghymru a ledled y byd yn ei chwarae yn eu cymunedau, yn eu teuluoedd ac yn y gweithle. Mae’r Cynulliad yn nodi gyda phleser arbennig ei safle fel arweinydd ymysg sefydliadau gwleidyddol democrataidd Ewrop o ran ei gynrychiolaeth o ferched, a’i gyfrifoldeb statudol i roi sylw dyledus i gyfle cyfartal yn y modd y mae’n ymarfer ei swyddogaethau ac yn cynnal ei fusnes.

Mae’r Cynulliad hwn wedi ymrwymo ei hun i ddileu’r anghyfartaleddau sy’n parhau i fodoli. Mae’n nodi gyda phryder arbennig y problemau o gyflogau isel a’r gagendor sy’n bodoli rhwng cyflogau menywod a dynion; a bod lefel y gofal plant a’r gefnogaeth i ferched sy’n ofalwyr yn parhau’n isel. Mae’n nodi hefyd bod lefel y trais yn erbyn menywod yn parhau ac yn nodi’r cam-wahaniaethu pellach sy’n cael ei wynebu gan fenywod o leiafrifoedd ethnig a menywod sy’n anabl.

Mae’r Cynulliad yn ymrwymo i weithio gyda Chynghrair Cenedlaethol Menywod Cymru, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a sefydliadau eraill er mwyn mynd i’r afael â’r problemau hyn ac i gyflawni’r dyheadau a gynhwysir yn eu Hagenda Gweithredu Cenedlaethol, sy’n deillio o Agenda’r Cenhedloedd Unedig ar gyfer Menywod

**4.00pm**

**Mater o Drefn:** Cododd **David Davies** fater o drefn o dan Reol Sefydlog 7 ynghylch sylwadau tramgwyddus. Dywedodd y Dirprwy Lywydd nad oedd o’r farn, ar sail Rheol Sefydlog 7.2, bod y

sylw y cyfeiriwyd ato yn dramgwyddus.

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 41

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 41

**Cymeradwywyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.51pm**

*****************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 14 Mawrth 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 7 MAWRTH 2000**

Adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd i'r Cynulliad